mae'r rhain wedi'u plannu. Mae'r gwaith o ddiogelu rhai cerrig beddi yn parhau.

**Cynllun Bioamrywiaeth** - Mae modd gweld y cynllun ar wefan y Cyngor Cymuned. Mae'n ofynnol bod gan bob cyngor un.

**Coeden Nadolig a Goleuadau** – Bu i'r Cyngor Cymuned brynu'r Goeden Nadolig ac fe wnaeth Alfa ei chodi'n garedig a gosod y goleuadau. Bu i'r Pwyllgor Coeden Nadolig drefnu bod mins peis a gwin poeth ar gael i'r oedolion ac roedd Siôn Corn yno i roi anrhegion i'r plant. Roedd cawl poeth a rhôl fara hefyd ar gael yn Y Gwydyr. Hoffem ni ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y digwyddiad llwyddiannus.

**Hwb Cynnes a Chinio'r Pensiynwyr** – Mae Cyngor Conwy, drwy eu grant Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, wedi rhoi arian i sefydlu hwb cynnes yn Y Gwydyr dros y gaeaf. Daeth llawer o bobl iddo a hoffem ni ddiolch i'r Gwydyr am eu gwaith caled i sicrhau fod hyn wedi bod yn bosibl. Rhoddodd Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru ychydig o arian i ganiatáu i bensiynwyr gael prydau bwyd yn fisol yn yr ysgol, gyda'r un olaf ym mis Mai 2026. Rydym yn chwilio am gyllid i ailddechrau hyn yn yr hydref.

**Toiledau Cyhoeddus** – Bu i doriadau gan Gyngor Conwy i doiledau cyhoeddus, arwain ar drosglwyddo'r toiledau cyhoeddus i'r Cyngor Cymuned yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor Cymuned bellach yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhain.

**Di-blastig** – Rydym ni'n gynghreiriad i'r grŵp Betws Di-blastig a'r Cylch ac yn gweithio gyda'n gilydd i gynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i leihau neu gael gwared ar blastig yn yr ardal.
Diffibriliwyr - i'w cael yn ac o amgylch y pentref yn siop Spar a gyferbyn â Benar Terrace.

**Astudiaeth ddichonoldeb Hydro Dolwyddelan** - Dros y flwyddyn, bu inni dderbyn grantiau gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ac adroddiadau comisiwn i weld a fyddai cynllun hydro cymunedol yn bosibl. Y canlyniadau oedd y byddai yn bosibl, ac mae cynnig yn cael ei gyflwyno i'r gymuned i drafod sut i symud y prosiect yn ei flaen er budd y gymuned.